**CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD**

**Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd**

**22ain Mehefin 2012 – 11:00yb**
**Ystafell Bwyllgor 1, Llangefni**

| | |
|---|---|
| **Yn Bresennol:** | **Cyngor Gwynedd** |
| | Cyng John Wyn Williams |
| | Cyng Gwen Griffith |
| | Cyng Dyfrig Jones |
| | Cyng John Pughe Roberts |
| | Cyng Dafydd Meurig (Eilydd) |
| | |
| | **Cyngor Sir Ynys Môn** |
| | Cyng WJ Chorlton |
| | Cyng H. Eifion Jones |
| | Cyng Eric Roberts |
| | Cyng Lewis Davies |
| | |
| | **Swyddogion** |
| | Aled Davies (AD) – Pennaeth Adran Rheoleiddio (CG) |
| | Jim Woodcock (JRW) – Pennaeth Gwasaneth Cynllunio (CSYM) |
| | Rhun ap Gareth – Uwch Gyfreithiwr (CG) |
| | Gareth Jones (GJ) Uwch Rheolwr Gwasanaeth Cynlunio (CG) |
| | Nia Haf Davies (NHD) - Rheolwr Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd |
| | Eirian Harris – Swyddog Cynllunio Cefnogol (UPCC) |
| | |
| **Ymddiheuriadau:** | Cyng Owain Williams (CG) |
| | Cyng Gethin Williams (CG) |
| | Cyng R Ll Hughes (CSYM) |
| | Cyng Clive McGregor (CSYM) |

1. **CADEIRYDD**
Penderfynwyd i ethol Cyng John Wyn Williams fel Cadeirydd y Pwyllgor yma.

2. **IS-GADEIRYDD**
Penderfynwyd i ethol Cyng R Ll Hughes fel Is-Gadeirydd y Pwyllgor yma.

3. **YMDDIHEURIAD**

Derbyniwyd ymddiheuriad gan Cynghorwyr Owain Williams, Gethin Williams, R Ll Hughes a Clive McGregor.

4. **DATGAN BUDDIANT PERSONOL**

Ni dderbyniwyd datganiad personol gan umrhyw aelod oedd yn bresennol.

5. **MATERION BRYS**

Ni gyflwynwyd unrhyw fater brys.

6. **COFNODION**

Cyng Gwen Griffiths eisiau nodi ei bod yn bresennol yn y cyfarfod diwethaf.

7. **PANEL CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – EI BARHAD A CHYTUNO AR EI AELODAETH**

Cyflwynwyd adroddiad gan ND sydd yn cyflwyno gwybodaeth am y trefniadau presennol:

- Dylestwyddau y Panel
- Cyfarfodydd wedi eu cynnal i ddatblygu papur trafod ar gyfer ymgysylltu gyda'r cyhoedd a rhanddeilaid penodol â chyfeiriad posib yr 'hoff strategaeth'.
- Mewnbwn i fethodoleg i asesu safleoedd fydd ar Gofrestr Tir Posib
- Ystyried sail tystiolaeth ar gyfer ymgymryd ag Asesiad Cynaliadwyedd o'r CDLl ar y Cyd a rhoi mewnbwn i'r fframwaith
- Ystyried casgliadau dechreuol Astudiaeth Tir Cyflogaeth

Cyflwynwyd rhestr o gyfarfodydd nesaf y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd a'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd (Atodiad 2). Rhaglen waith arfaethedig y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd ar gyfer 2012 – 2013.

- Asesiad o oblygiadau ystadegau am boblogaeth Gwynedd a Môn ddaw allan o ganlyniadau dechreuol Cyfrifiad 2011
- Asesiad o oblygiadau astudiaeth i adnabod cyfleon i gyfarch yr angen am lety i weithwyr adeiladu Wylfa B
- Asesiad Strategol o Risg Llifogydd Lefel 1
- Adolygiad o Ardaloedd Cymeriad y Tirlun ac Ardaloedd Tirwedd Arbennig
- Tystiolaeth i gefnogi parhad a diwygiad o bolisïau am dai fforddiadwy ac anghenion am fathau eraill o lety
- Datblygiad y strategaeth aneddleoedd – rôl a chapasiti aneddleoedd unigol
- Asesiad o gasgliadau'r Astudiaeth Tir Cyflogaeth
- Asesiad o gasgliadau'r Astudiaeth manwerthu
- Asesiad o oblygiadau strategaethau twristiaeth

Gofynnwyd i'r Aelodau am eu sylwadau i barhau neu beidio gyda'r trefniant presennol sef bod holl aelodau'r Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd ar y Panel Cynllun Datblygu Lleol ar y Cyd.

**Penderfynwyd fod Aelodau y Panel yr un aelodaeth â'r Pwyllgor, gan barhau gyda'r un trefniant.**

**Penderfynwyd fod eilydd y Panel yn eilydd ar y Pwyllgor hefyd ac i'r eilydd dderbyn adroddiadau a phapurau.**

## 8. CYNLLUN DATBLYGU LLEOL AR Y CYD – ADRODDIAD CYNNYDD

Cyflwynwyd adroddiad gan ND sydd yn amlinellu'r cynnydd hyd yma ac yn rhoi gwybodaeth am y rhaglen waith a'r amserlen.

- Tabl 1 yn dangos camau yn y rhaglen waith fel a gyflwynwyd yn Cytundeb Cyflawni presennol.
- Tabl 2 yn dangos cerrig milltir rheng is sydd yn ein caniatáu i gyrraedd y camau statudol a welir yn Tabl 1
- Tabl 3 yn rhoi gwybodaeth am astudiaethau technegol a phapurau testun
- Tabl 4 yn dangos y drefn adrodd arfaethedig a pherthynas y Pwyllgor Polisi Cynllunio ar y Cyd gyda phwyllgorau perthnasol eraill
- Tabl 5 yn dangos amserlen ddiwygiedig ar gyfer y broses paratoi'r CDLl ar y Cyd

Tabl 1:
Ar hyn o bryd mae'r Uned yng nghanol camau 2 a 3 sef adolygu a datblygu'r sail dystiolaeth, sy'n cynnwys mewnbwn gan y cyhoedd a rhanddeiliaid eraill. Dyma'r cyfnod pryd gesglir llawer o dystiolaeth a fydd yn dylanwadu ar gynnwys y CDLl ar y Cyd.

Cynhaliwyd seminar (1 yn Môn a 2 yng Ngwynedd oherwydd ei faint) i dderbyn mewnbwn a barn yr Aelodau.

Tabl 2
Mae gwaith Asesiad Cynaliadwyedd a Asesiad Amgylcheddol Strategol wedi ei ymgymryd gan Enfusion ac wedi ei gwblhau fel a ddangoswyd yn yr amserlen.

Ceisiadau wedi eu derbyn ar gyfer y Gofrestr Safleoedd Posib.

Tabl 3
Mae nifer o bapurau wedi eu paratoi ac yn gweithio ar nifer o asesiadau.

Tabl 4
Cymhariaeth rhwng tabl 4 a'r Cytundeb Cyflawni yn dangos llithrad o rhyw 3 mis.  Materion sydd wedi effeithio yr amserlen yw ymateb i ofynion am  Safleoedd Posib a'r amser i gofnodi yr wybodaeth. Hefyd yn gorfod cyfeirio adnoddau i waith arall e.e. paratoi CCA Tyrbini Gwynt a delio â'r ymateb i'r ymgynghoriad cyhoeddus.

Tra nodwyd y byddai gwybodaeth dechreuol am gasgliadau Cyfrifiad 2011 yn cael ei ryddhau yn ystod 2012, ni fyddai gwybodaeth cyflawn yn cael ei ryddhau tan Medi 2013. Rhagwelwyd y byddai hynny'n cyd-fynd a chyhoeddiad rhagolygon poblogaeth ac aelwydydd canol 2011. O gofio'r pwysau a roddir gan yr Arolygaeth Cynllunio a Llywodraeth Cymru ar y rhagolygon, nodwyd y gallai'r llithriad bach yn y rhaglen fod yn un manteisiol, oherwydd y byddai'n rhaid rhoi ystyriaeth I'r wybodaeth cyn yr Ymchwiliad Cyhoeddus Lleol.

Gofynwyd am gefnogaeth I'r rhaglen waith a'r amserlen ddiwygiedig, gan nodi y byddai pob ymdrech yn cael ei wneud I gyflawni'r amserlen oferol a welir yn y Cytundeb Cyflawni, h.y. cael Cynllun mabwysiedig yn ei le erbyn Ebrill 2016.

**Penderfynwyd i gefnogi'r rhaglen waith a'r amserlen diwygiedig**